

Datganiad o Fwriad ynghylch Iechyd a Diogelwch

1.1 Mae'r Cynulliad yn anelu at warchod ei staff, ei contractwyr a'i ymwelwyr rhag afiechyd, anaf yn gysylltiedig â'r gwaith neu glefyd, ynghyd â hyrwyddo llesiant cyflogeion a darparu amgylchedd gwaith diogel.

1.2 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr wedi ymrwymo i sicrhau mai'r gofynion deddfwriaethol o ran iechyd a diogelwch yw'r lefel isaf a gyrhaeddir o fewn y Cynulliad a bod ein perfformiad o ran iechyd a diogelwch yn gwella'n barhaus.

1.3 Y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr sy'n gosod amcanion iechyd a diogelwch y caiff perfformiad y Cynulliad eu mesur yn eu herbyn, ac maent wedi ymrwymo i gynllunio, mesur, adolygu ac archwilio eu system rheoli iechyd a diogelwch.

1.4 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr wedi ymrwymo i roi arweiniad o ran iechyd a diogelwch ar bob un o'r lefelau rheoli ac maent yn cydnabod bod cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch yr un mor bwysig â chyfrifoldebau eraill o ran gwaith rheoli.

1.5 Bydd y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn sicrhau bod pawb sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch yn cael y wybodaeth, y cyfarwyddiadau a'r hyfforddiant anghenrheidiol er mwyn iddynt gyflawni'u cyfrifoldebau a chydymffurfio â'r holl ofynion statudol a chodau ymarfer.

1.6 Er mai'r lefel reoli uchaf sy'n gyfrifol am faterion iechyd a diogelwch yn y pen draw, mae dyletswydd ar bob unigolyn i gymryd gofal rhesymol am ei iechyd a'i ddiogelwch ei hun, ac iechyd pobl eraill a allai gael eu heffeithio arnynt gan ei weithrediadau neu ei ddiffyg gweithredu. Mae llwyddiant Polisi Iechyd a Diogelwch y Cynulliad yn ddibynnol ar gydweithrediad pob aelod staff.

1.7 Caiff y Polisi ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd ac, os oes angen, ei adnewyddu yn sgil unrhyw newidiadau deddfwriaethol neu sefydliadol.

Claire Clancy



Prif Weithredwr a Chlerc

Dyddiad: 18 Mehefin 2013



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales